

CYNGOR SIR Y FFLINT
27 MEDI 2022

Cofnodion Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Mawrth 27 Medi 2022

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Mared Eastwood (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr: Mike Allport, Glyn Banks, Pam Banks, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Gillian Brockley, Helen Brown, Mel Buckley, Teresa Carberry, Tina Claydon, David Coggins Cogan, Geoff Collett, Steve Cople, Bill Crease, Rob Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Carol Ellis, David Evans, Chrissy Gee, David Healey, Gladys Healey, Ian Hodge, Andy Hughes, Dave Hughes, Dennis Hutchinson, Alasdair Ibbotson, Paul Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Simon Jones, Richard Lloyd, Dave Mackie, Gina Maddison, Roz Mansell, Allan Marshall, Hilary McGuill, Ryan McKeown, Billy Mullin, Debbie Owen, Ted Palmer, Andrew Parkhurst, Mike Peers, Vicky Perfect, Carolyn Preece, David Richardson, Ian Roberts, Dan Rose, Kevin Rush, Dale Selvester, Jason Shallcross, Sam Swash, Linda Thew, Linda Thomas, Ant Turton, Roy Wakelam, Arnold Woolley ac Antony Wren

YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Paul Cunningham, Jean Davies, Ray Hughes a Michelle Perfect

YN BRESENNOL: Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg, Iaith Gymraeg, Diwylliant a Hamdden, Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd ac Economi), Rheolwr Comisiynu, Dirprwy Swyddog Monitro, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a thîm Gwasanaethau Democrataidd.

Cyn dechrau'r cyfarfod mynegodd Arweinydd y Cyngor ei ddiolch a chanmoliaeth i'r Cadeirydd am ei chyflwyniad, arweinyddiaeth a'i haraith yn Gymraeg ar Broclamaswng Esgyniad y Brenin Charles III. Hefyd canmolodd weithwyr y Cyngor a oedd yn rhan ar fyr rybudd yn cefnogi'r digwyddiad dydd Sul, 11 Medi i sicrhau ei fod yn llwyddiant. A diolchwyd yn arbennig i bresenoldeb Band Llanceurgain a ychwanegodd at y seremoni. Diolchodd y Cadeirydd ac Aelodau o'r Cyngor i'r Swyddogion oedd ynghlwm.

28. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd bod dau gwestiwn wedi dod i law a gwahoddwyd Mr Colin Randerson i gyflwyno ei gwestiwn i'r Cyngor. Diolchodd Mr Randerson i'r Cadeirydd a'r Cyngor am y cyfle hwn i fynychu'r cyfarfod a darllenodd ei gwestiwn.

“Gan ystyried bod y Cyngor wedi cynnig newidiadau i bolisiau sy'n berthnasol i niferoedd o dai fforddiadwy ar sail pwysau gan nifer bychan o ddatblygwyr preifat, ond nid oes unrhyw newidiadau ystyriol wedi ei wneud i'r CDLI o ganlyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus, lle'r oedd rhai safleoedd wedi cael 200 o

wrthwynebiadau unigol, ydych chi'n credu bod hyn yn dangos proses sydd yn gwerthfawrogi pryderon ei breswylwyr ac yn eu cynrychioli yn unol â hynny?

Ymatebodd y Cynghorydd Bithell drwy ddweud ar y dechrau, roedd yn bwysig i bwysleisio bod y newidiadau a wnaethpwyd i'r Cynllun yn dilyn sesiynau gwrandawriad Archwiliad a adnabyddir fel Newidiadau'r Materion sy'n Codi **heb** gael eu gwneud gan y Cyngor, ond eu cynnig gan Arolygydd, a bod y Cyngor wedi cytuno ym mis Gorffennaf eleni, er mwyn hwyluso ymgynghoriad cyhoeddus arnynt. **Nid** oedd dim newidiadau wedi'u cynnig i'r canrannau o ddarpariaeth o dai fforddiadwy, a'r unig newid i eiriad polisi tai fforddiadwy oedd adlewyrchu ar newid a geisiwyd gan yr Arolygydd i gadarnhau bod y canrannau a cheisiwyd yn darged, yn hytrach na phwynt dechrau.

Pwrpas canolog yr Archwiliad oedd i'r Arolygydd ystyried cadernid y Cynllun fel y cyflwynwyd, ac ni oedd yng nghylch gorchwyl yr Arolygydd i wella'r Cynllun, nag i'w newid ar sail nifer o wrthwynebiadau iddo neu safle neu bolisi penodol. Byddai rhan o asesiad yr Arolygydd yn cyfeirio at sail tystiolaeth y Cyngor i gefnogi'r polisiau a chynigion y Cynllun. Roedd hyn yn berthnasol yn gyfartal i sylwadau a wnaethpwyd gan wrthwynebwyr, lle'r oedd cyfrifoldebau ar wrthwynebu oedd cyflwyno gwrthwynebiadau a gefnogir gan dystiolaeth a oedd yn cwestiynu'r cynllun neu gadernid y safle. Yr Arolygydd oedd beirniadu a'r sail resymegol ar sut yr oedd wedi ystyried cadernid y materion o fewn ei hadroddiad, a oedd dal heb ddod i law.

Roedd gofyn i'r Cyngor a'r Arolygydd ystyried beth oedd y gwrthwynebwyr wedi dweud pan wnaethpwyd y sylwadau, ond nid oedd gofyn iddynt dderbyn yn syml beth ddywedwyd. Roedd hyn yn ymwneud â chynllunio beirniadaeth a oedd wedi'i ddefnyddio gan y Cyngor ac ar wahân ac yn annibynnol gan yr Arolygwyr. Dyma oedd y broses Cynllun Datblygu cyfredol fel y rhagnodwyd gan Ganllaw Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru. Yn rhannol roedd y cwestiwn yn gwahodd y Cyngor i roi sylw ar agweddau o'r broses hwn nad oedd o fewn ei reolaeth, ac felly nid oedd yn briodol i ddisgwyl i'r Cyngor roi sylw ar sut yr oedd yr Arolygydd wedi cyflawni'r archwiliad.

Cyflwynodd yr holwr sylwadau wedi'u hysgrifennu ar y cam ymgynghori Dogfen i'w harchwilio, a oedd wedi'i ystyried gan swyddogion a lle'r oedd y Cyngor wedi cytuno i argymhell ymatebion nad oedd yn diwygio na newid y cynllun. Fel yr ymateb i gwestiwn 2 a ddilynodd, cyflwynodd yr holwr hwn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Archwiliad CDLI ac ymddangosodd yn bersonol a mynegi ei bwyntiau i'r Arolygwr. Dylai'r dystiolaeth hwn fod wedi'i ffocysu ar fynd i'r afael â chadernid y safle perthnasol, gan mai dyna oedd y mater perthnasol ar gyfer yr Arolygydd i'w ystyried. Os nad oedd unrhyw newid i'r dyraniad safle wedi dod o'r Archwiliad drwy fodd Newidiadau'r Materion yn Codi sy'n berthnasol i'r safle, yna byddai casgliad amlwg o beth oedd yr Arolygydd yn ystyried nad oedd y materion a godwyd yn herio'r cynllun na chadernid y safle. I'r gwrthwyneb lle'r oedd gan yr Arolygydd bryderon ynghylch yr elfen dai yn safle Warren Hall, mi wnaeth newid.

Yn olaf, cafodd y safle hefyd ei ystyried yn ddyraniad cynaliadwy yn yr ymchwiliad cyhoeddus UDP lle wnaeth yr arolygydd argymhell ei ddyraniad. Mae'r safle wedi cael ei ailystyried drwy'r broses CDLI ac Archwiliad, ac nid oes unrhyw

dystiolaeth wedi cael ei gyflwyno i atal hyn, naill ai ar gyfer y safle hwn, neu eraill a ddyrannwyd yn y CDLI.

Dyweddodd Mr Randerson bod ei gwestiwn wedi codi pryderon ac wedi gofyn cwestiwn atodol o ran pam nad oedd unrhyw newidiadau wedi cael eu gwneud, waeth faint o wrthwynebiadau a ddaeth i law, yn dilyn yr ymgynghoriad. Beth oedd pwrpas cael ymgynghoriad cyhoeddus, sydd yn costio llawer o arian, os nad oedd unrhyw sylw na newidiadau yn cael eu gwneud i unrhyw un o'r ymatebion gan y preswylwyr? Gofynnodd a oedd dim newidiadau oherwydd pwysau gan y datblygwyr.

Teimlodd y Cynghorydd Bithell bod hyn wedi'i gyflenwi o fewn yr ymateb ond byddai'n ymateb i Mr Randerson yn ysgrifenedig.

Darllenodd Mr David Rowlinson y cwestiwn canlynol:-

"Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) bellach yn saith mlynedd yn hwyr. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus a oedd yn cynnwys yr adran gynllunio yn ystyried ac yn gwrthod nifer uchel o wrthwynebiadau cyhoeddus gyda dros 200 i rai safleoedd). Ni wnaethpwyd unrhyw newidiadau ystyriol i'r cynllun. Mae archwiliad manwl wedi'i wneud a wnaeth arwain at wrandawiadau cyffrous ond yn arwain at newidiadau bach technegol i'r cynllun, wedi'u gyrru'n rhannol gan Arolygwyr heb ddim pŵer i awgrymu gwelliannau i'r cynllun. Ers cyflwyno'r CDLI nifer o flynyddoedd yn ôl, does dim cyfle wedi codi i aelodau etholedig y cyngor i ddylanwadu ar ganlyniad y cynllun er bod pryderon parhaus wedi'u codi gan eu hetholaeth. Faint mae'r CDLI wedi costio ers rhannu'r cynllun i ddechrau fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus; ac a yw'r cyngor yn teimlo bod hyn yn cynrychioli defnydd da a gwell o arian cyhoeddus, gan ystyried amharodrwydd yr adran gynllunio i wneud newidiadau neu welliannau i'r CDLI?

Ymatebodd y Cynghorydd Bithell yn dweud ei fod yn bwysig ar y dechrau, i atgoffa'r Cyngor ar rai o'r prif resymau dros baratoi Cynllun Datblygu Lleol yn y dechrau:

- Roedd y Cynllun Datblygu Lleol yn gynllun statudol. **Roedd rhaid i'r Cyngor gynhyrchu un:**
- Byddai'r CDLI yn darparu fframwaith polisi diweddar er mwyn gwneud penderfyniad ar sail y wybodaeth ar geisiadau cynllunio;
- Byddai'r CDLI yn cefnogi Uchelgais Economaidd a thwf a darparu swyddi yn unol â statws Ardal Twf Cenedlaethol Sir y Fflint;
- Byddai'r CDLI yn darparu tai mewn lleoliadau cynaliadwy i fodloni anghenion y twf hwn, gan gynnwys nifer sylweddol o dai fforddiadwy;
- Byddai mabwysiadu'r CDLI yn atal ffrwd barhaus o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad tai lle'r oedd unrhyw ward Aelodau yn ddiameddiffyn oherwydd nad oedd cynllun datblygu diweddar wedi'i fabwysiadu nac mewn lle.

Roedd y CDLI yn ei gamau terfynol ar gyfer ei fabwysiadu. Roedd yn arferiad cyffredin i CDLI gael eu mabwysiadu i'w cyfnod cynllunio, a byddai'r cynllun ond yn dod yn weithredol ar ôl ei fabwysiadu.

Mae'r CDLI wedi bod drwy ei holl gamau statudol gan gynnwys y rheiny a oedd yn gyfrifoldeb y Cyngor cyn ei gyflwyno i'r Archwiliad, ac yna'r rhai oedd

dan reolaeth gyflawn Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) a'r Arolygwyr a benodwyd. Y Cyngor, ar y cyfan, oedd yn gwneud penderfyniadau ar y cynnydd o'r cynllun datblygu hyd at ei gyflwyno, ei hysbysu a'i gynghori gan argymhellion y swyddogion.

Roedd y Cyngor wedi ystyried a chytuno i barhau â'r Cynllun ar ddau achlysur gwahanol - yn gyntaf pan gytunwyd yn gyntaf i gyhoeddi CDLI i'w Archwilio drwy ymgynghoriad ar 23 Gorffennaf 2019 - bu i'r un Aelod bleidleisio yn erbyn; a phan gytunwyd i'r ymatebion a argymhellwyd i sylwadau'r cyhoedd ac i gyflwyno'r cynllun ar gyfer Archwiliad cyhoeddus, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi 2020 - ni phleidleisiodd yr un Aelod yn ei erbyn.

Dywedodd Llywodraeth Cymru na ddylai'r Cyngor beidio â chyflwyno ei gynllun ar gyfer Archwiliad oni bai y mae'n ystyried y cynllun i fod yn un cadarn ac yn gallu ei fabwysiadu oherwydd ar ôl ei gyflwyno, mae'r rheolaeth yn cael ei basio o'r Cyngor i'r Arolygwyr a bennwyd.

Rôl yr Arolygwyr a bennwyd oedd ystyried a oedd y cynllun **a gyflwynwyd** yn gadarn ac yn addas i'w fabwysiadu - nid oedd eu rôl yn **ymwneud â cheisio gwella'r cynllun**. Cafodd hyn ei wneud yn glir yn y Cyfarfod Cyn y Gwrandawriad ac adlewyrchwyd yn nodyn yr Arolygydd o'r cyfarfod. Mynychodd 120 o gyfranogwyr y cyfarfod hwn gan gynnwys yr holwr.

Yn syml oherwydd y nifer y bobl a wrthwynebodd i safle, nid oedd hyn yn golygu bod y Cyngor yn gorfod derbyn yn awtomatig y gwrthwynebiadau hynny neu wneud newidiadau i'r Cynllun. Y prif ofyniad i wrthwynebu oedd dangos, gyda thystiolaeth, sut nad oedd y cynllun na safle penodol yn gynaliadwy na chadarn. Cafodd sylwadau a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad CDLI wedi'i archwilio eu hystyried gan swyddogion a'r ymatebion a argymhellwyd a gytunwyd gan y Cyngor - yn ôl safbwynt y Cyngor nid oedd y rhain yn codi unrhyw faterion a oedd yn herio cadernid y cynllun.

Cyflwynwyd sylwadau pellach fel tystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar i'r Archwiliad CDLI mewn perthynas â'r safle hwn (ac eraill). Dylai'r dystiolaeth hwn fod wedi'i ffocysu ar fynd i'r afael â chadernid y safle perthnasol, gan mai dyna oedd y mater perthnasol ar gyfer yr Arolygydd i'w ystyried. Hefyd, nid oedd y sesiynau gwrandawriad yn bennaf i wrando ar wrthwynebwyr, gan fod yr Arolygydd wedi clywed gan bob parti â diddordeb gan gynnwys y rheiny a oedd yn hyrwyddo safleoedd wedi'u dyrannu yn y Cynllun. Os nad oedd unrhyw newid i'r dyraniad safle wedi dod o'r Archwiliad drwy fodd Newidiadau'r Materion yn Codi sy'n berthnasol i'r safle, yna byddai casgliad amlwg o beth oedd yr Arolygydd yn ystyried oedd y materion a godwyd ddim yn herio'r cynllun na chadernid y safle.

Er y byddai'r gost lawn o'r cynhyrchiad y CDLI yn cael ei gyfrifo ar ôl mabwysiadu'r Cynllun, y prif elfennau cost hyd yma fel a ganlyn:

• Costau staffio blynyddol Tîm Polisi (o gyllideb 2022/23)	£318,698.00
• Paratodau ar sail tystiolaeth (y broses gyfan hyd yma)	£374,000.00
• Ffioedd Arolygwyr Archwiliad hyd yma	£53,122.87
• Costau Swyddog Rhaglen Archwiliad hyd yma	£29,812.50

Y prif bwynt i Aelodau ei gydnabod oedd nad oedd gan y Cyngor opsiwn ond i gynhyrchu cynllun datblygu, gan ei fod yn ofyniad statudol, a oedd yn golygu ei fod **yn gorfod** gwario cyllid cyhoeddus ar adnoddau i'r broses. Roedd y Cyngor wedi cyllidebu am hyn, ond wedi arbed swm sylweddol drwy gynnal yr Archwiliad mewn modd rhithiol, a oedd hefyd yn fanteisiol i alluogi'r cyhoedd ehangach fod ynghlwm a chymryd rhan. Mae'r arbedion wedi bod mor dda nes bod cronfeydd wrth gefn i gefnogi mabwysiadu CDLI yn cael ei ddychwelyd i'r ganolfan gorfforaethol, ac felly'n helpu i gynorthwyo sefyllfa gyllidebol cyffredinol y Cyngor.

Roedd y cynllun ar gam uwch yn awr, yr unig beth oedd ar ôl oedd adroddiad yr Arolygydd, a oedd gydag argymhellion mewn perthynas â chynllunio cadernid a mabwysiadu yn rhwym cyfreithiol i'r Cyngor. Doedd dim opsiwn i drafod unrhyw agwedd benodol o'r cynllun ar y cam hwn - **mabwysiadu oedd y cynllun cyfan**.

Roedd Mr Rowlinson yn gwerthfawrogi'r ymateb ac yn cytuno ar y nifer o bwyntiau a wnaethpwyd ar bwrpas y CDLI, a'r ffordd fanwl yr oedd wedi'i gyflawni, yn arbennig yn caniatáu pobl i ymuno i gyfrannu o bell. Gofynnodd gwestiwn ychwanegol ar gadarnhad, roedd yn ceisio dadansoddiad o'r niferoedd rhwng paratoi ar gyfer y cynllun, cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, a'r gost yn eithrio costau archwilio gwirioneddol ers y pwynt hynny. Roedd yn ymddangos y byddai costau sylweddol wrth fynd drwy'r cynigion ar y cynllun lle nad oedd unrhyw newidiadau gwirioneddol i'r cynllun a fyddai'n nodi nad oedd gwerth ei arian. Teimlai bod yr ymateb yn ffocysu ar gadernid yn hytrach na'r gallu i wella'r cynllun neu ei wneud yn gynllun gorau ar gyfer y cyhoedd. Roedd y ffaith na wnaethpwyd unrhyw newidiadau ystyriol i'r cynllun yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn awgrymu nad oedd yn cynrychioli gwerth da am arian ar y broses briodol. Beth oedd pwrpas cyflawni ymgynghoriad cyhoeddus os nad oedd y safbwyntiau yn rhan o ffurfio'r cynllun? I gadarnhau gofynnodd pa gostau a godwyd ers y cyhoeddiad ar gyfer yr archwiliad cyhoeddus heb y costau archwiliad gwirioneddol yr oedd yn derbyn yn rhan o'r broses.

Cytunodd y Cynghorydd Chris Bithell i ymateb i'r cwestiwn atodol yn ysgrifenedig.

29. DATGAN CYSYLLTIADAU

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

30. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 24 Mai 2022 a 26 Gorffennaf 2022.

Cofnodion 24 Mai 2022 - Cywirdeb.

Ar dudalen 18 a 19, gofynnodd y Cynghorydd Antony Wren a ellir newid y camsillafiad o'i enw cyntaf. Cytunwyd ar hyn.

Cofnodion 26 Gorffennaf 2022 - Cywirdeb

Cyfeiriodd y Cynghorydd Richard Jones at dudalen 28 a'r drafodaeth ynghylch y diffiniad cenedlaethol o dlodi ac ailddiffinio'r eirfa i'w ddefnyddio'n lleol a gofynnodd a oedd unrhyw wybodaeth ar hyn. Mewn ymateb, dywedodd y Dirprwy Swyddog Monitro y byddai ymateb yn cael ei ddarparu yn dilyn y cyfarfod.

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 24 Mai 2022 a 26 Gorffennaf 2022 eu cynnig a'u heilio fel cofnodion cywir.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo cofnodion 24 Mai 2022 a 26 Gorffennaf 2022 fel cofnod cywir.

31. DEISEBAU

Cyflwynodd y Cynghorydd Hilary McGuill Ddeiseb, yn cynnwys 300 o lofnodion, ar ran preswylwyr ardaloedd Heol Fammau a Moel Gron ym Mynydd Isa. Roedd y preswylwyr wedi gwneud cais bod gwaith atgyweirio brys yn cael eu cyflawni oherwydd cyflwr gwael ar y ffyrdd, Roedd y cais hwn wedi'i wneud ers peth amser a dywedodd y Cynghorydd McGuill yn ystod cyfnod o 60 mlynedd, bod y ffyrdd ond wedi cael eu hatgyweirio ond mewn angen difrifol o gael eu hailwynebu'n gywir bellach.

Cyflwynodd y Cynghorydd David Coggins Cogan Ddeiseb yn cynnwys llofnodion 315 preswylwyr yn ei ward i'r Cyngor i adolygu diogelwch y ffyrdd yn ei ward ar frys. Rhoddwyd trosolwg ar yr amodau perygl ar y ffyrdd hyn a oedd wedi arwain at nifer o farwolaethau. Roedd diffyg palmentydd ac arwyddion rhybuddio. Hefyd, y terfyn cyflymder ar y ffordd hon oedd 60 mya. Roedd y Cyngor yn ymwybodol o'r problemau, ac roedd yn erfyn bod camau gweithredu yn cael eu cyflawni.

32. PWYLLGOR NEWID HINSAWDD

Cyfeiriodd y Dirprwy Swyddog Monitro at y Cyfarfod Blynyddol o'r Cyngor, pan gytunwyd i sefydlu Pwyllgor Newid Hinsawdd, a dywedodd bod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor hwn wedi'i leoli yn Atodiad 1 yr adroddiad. Darparwyd diwygiad bach i'r Cylch Gorchwyl ynghyd â chadarnhad ei fod yn bwyllgor anstatudol, ond bod y Cyngor wedi cytuno y byddai'n gytbwys yn wleidyddol. Trefnwyd y cyfarfod cyntaf ar gyfer 22 Tachwedd, a gofynnwyd bod y Cyngor yn penodi Cadeirydd ar gyfer y pwyllgor, i gytuno a ddylai'r Cadeirydd gael tâl am y rôl ac i gytuno gyda'r Cylch Gorchwyl.

Rhoddodd y Prif Swyddog (Amgylchedd Cynllunio ac Economi) drosolwg o ymrwymiad a wnaethpwyd gan y Cabinet yn 2019 y byddai'r Cyngor Sir yn dod yn garbon niwtral erbyn 2030 yn dilyn cyngor Llywodraeth Cymru. Rhoddodd wybodaeth ar benodiad Alex Ellis, Cydlynnydd Newid Hinsawdd, ac amlinellodd y gwaith a gyflawnwyd gan y Bwrdd Rhaglen Newid Hinsawdd. Dywedodd y byddai'r Pwyllgor yn bwyllgor ymgynghorol i hysbysu'r Cabinet ar y camau

gweithredu sy'n ofynnol i gyrraedd y targed o ddod yn garbon niwtral erbyn 2030. Cytunwyd ar y Cynllun Gweithredu a Strategaeth ym mis Chwefror 2022, ac eglurodd sut y byddai'r pwyllgor hwn yn cydweithio ar draws y Cyngor, a chyda phartneriaid busnes eraill i gyflawni'r nod hwnnw o ddod yn garbon niwtral erbyn 2030.

Bu i Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden gynnig argymhelliad y Cylch Gorchwyl, fel y'i diwygiwyd. Hefyd cynigiodd bod Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn cael tâl. Enwebodd y Cynghorydd Alasdair Ibbotson fel Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd. Roedd yn teimlo'n hyderus gyda'r Cynghorydd Ibbotson fel Cadeirydd, ynghyd ag Aelod Cabinet Newid Hinsawdd ac Economi, y byddent yn gallu symud y gwaith pwysig oedd ei angen ymlaen. Cafodd hyn ei eilio gan Aelod Cabinet Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol, (gan gynnwys lechyd a Diogelwch ac Adnoddau Dynol).

Gofynnodd y Cynghorydd Andrew Parkhurst am ddiwygiad o'r argymhelliad cylch gorchwyl. Darllenodd ddatganiad gan y Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol. Ei ddiwygiad arfaethedig i argymhelliad 1 oedd "i gymeradwyo Cylch Gorchwyl i bwnc Pwyllgor Newid Hinsawdd yn amodol ar adolygiad yn ystod blwyddyn y cyngor." Cafodd y diwygiad hwn ei gynnig yn ysbryd cefnogi nodau Cyngor Sir y Fflint i fynd i'r afael o ddifrif mewn newid hinsawdd.

Derbyniodd yr Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden y diwygiad. Cafodd y diwygiad hwn ei eilio gan Aelod Cabinet Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol, (gan gynnwys lechyd a Diogelwch ac Adnoddau Dynol) hefyd.

Yna cyfeiriodd y Cadeirydd at y trydydd argymhelliad i benodi Cadeirydd i'r Pwyllgor, yn dweud bod un enwebiad i'r Cynghorydd Alistair Ibbotson wedi dod i law. Roedd yr Aelod Cabinet Newid Hinsawdd ac Economi yn cefnogi'r enwebiad ar gyfer y Cynghorydd Ibbotson yn llawn.

Enwebodd y Cynghorydd Helen Brown y Cynghorydd Allan Marshall fel Cadeirydd y Pwyllgor. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Richard Jones.

Ar ôl pleidleisio ar gyfer pob enwebiad, penodwyd y Cynghorydd Alasdair Ibbotson yn Gadeirydd.

Gofynnodd y Cadeirydd os oedd unrhyw siaradwyr ar gyfer argymhellion 1 a 2.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan y Cynghorydd Mike Peers, cadarnhaodd y Dirprwy Swyddog Monitro bod yr eirfa ar gyfer pwynt 9.15.4.2 y cylch gorchwyl yn gywir.

Yn gyntaf mynegodd y Cynghorydd Alasdair Ibbotson ei ddiolch cywiraf i'r Aelodau am gefnogi ei enwebiad. Dywedodd bod y cylch gorchwyl yn eang iawn ac yn dilyn penderfyniad sero net y Cabinet yn 2019 a'r Strategaeth Newid Hinsawdd. Roedd angen y Strategaeth gael ei gynnwys ym mhob agwedd o fusnes y Cyngor, ac amlinellodd y llwybrau o fewn y Strategaeth i sicrhau bod y cylch gorchwyl yn cael eu bodloni i alluogi'r Cyngor gyflawni sero net erbyn 2030.

Mewn ymateb i gwestiwn ar ddarparu cyngor diduedd i breswylwyr, teimlai'r Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) bod hyn yn cael ei gynnwys ym mhwynt 9.16.5.13 y cylch gorchwyl a fyddai'n cynnwys cyngor ar ddarpariaeth ynni.

Gan fod yr argymhellion wedi'u cynnig a'u heilio, cafwyd pleidlais a chymeradwywyd yr argymhellion.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Cylch gorchwyl y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn cael ei gymeradwyo;
- (b) Hefyd bod Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn cael tâl; a
- (c) Penodi'r Cynghorydd Alasdair Ibbotson fel Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd.

33. ADRODDIAD AR SEFYDLOGRHYDD Y FARCHNAD GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Gogledd Cymru.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol gydweithio i gynhyrchu Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad ochr yn ochr ag Asesiad o Anghenion Poblogaeth. Roedd yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn darparu asesiad ar ddigonolrwydd gofal a chymorth o ran bodloni'r anghenion a'r galw am ofal cymdeithasol, fel y nodir yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau a reoleiddir sy'n darparu gofal a chymorth.

Mae'n rhaid cynhyrchu un Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad ar gyfer Rhanbarth Gogledd Cymru a derbyn cymeradwyaeth gan Fwrdd y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Cyngor Llawn ym mhob Awdurdod Lleol yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rhaid cyhoeddi'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad derfynol ar wefan pob Awdurdod Lleol, ar wefannau'r Byrddau Iechyd a gwefan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn Gymraeg a Saesneg a chopi o'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru. Byddai'r Asesiad ar Anghenion Poblogaeth ac Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn cael ei ddefnyddio i hysbysu cynllun cyflawni lleol a rhanbarthol a datblygiad gwasanaeth i symud ymlaen. Felly, gofynnodd bod y Cyngor yn cymeradwyo Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yng Ngogledd Cymru 2022.

Diolchodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) y Rheolwr Contract a Chomisiynu a'i thîm am eu gwaith wrth gwblhau'r adroddiad. Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu a Throsolwg Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, ac roedd yn falch iawn o'r gwaith a gyflawnwyd yn natblygiad y gwasanaethau, megis Cartrefi Plant yn yr Wyddgrug, ac estyniad i'r cyfleuster yn Marleyfield ym Mwcle. Bu i'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad ddiweddaraf amlinellu'r gweithio mewn partneriaeth yng Ngogledd Cymru o fewn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ac yn cynnwys ôl-troed rhanbarthol ac amlygodd themâu Sir y Flint.

Darparwyd trosolwg o boblogaeth yr henoed yn y sir, gyda dros 65 rhagfynegiad yn ystod y 20 mlynedd yn uwch yn Sir y Fflint na'r cyfartaledd rhanbarthol. Roedd rhaid i'r Awdurdod gynllunio i sicrhau bod yr holl wasanaethau yn gadarn i ddarparu'r gwasanaethau o ansawdd orau gyda'r adroddiad yn darparu gwybodaeth ragorol, ddim ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol yn unig ond i wasanaethau eraill hefyd.

Mewn ymateb i gwestiwn ar gau cartrefi gofal gan y Cynghorydd Peers, amlinellodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) y berthynas waith agos gyda phartneriaid cartrefi gofal, ond dywedodd oherwydd pwysau roeddynt wedi'i brofi bod rhai wedi stopio gweithredu, ond nid oedd hyn yn digwydd yn aml. Roedd sensitifrwydd o weithio mewn cartrefi gofal, teuluoedd a phreswylwyr yn cael eu deall i sicrhau bod pawb yn cael eu cefnogi ac yn setlo yn eu cartrefi eraill. Gan gyfeirio at gapasiti cyffredinol, cadarnhaodd bod hyn wedi lleihau ac amlygodd bod yr Awdurdod angen darparu ei ddarpariaeth gofal o ansawdd dda ei hun, a dyna pam bod Maryfield wedi'i gwblhau a bod cynlluniau'n parhau i ymestyn Croes Atti yn y Fflint ac i ystyried opsiynau ar gyfer Llys Gwenffrwd yn Nhreffynnon.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Bateman ar ofal dydd yng Nghroes Atti, eglurodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) bod Croes Atti yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cymorth gofal i bobl iau gyda dementia cyn y pandemig. Roedd gofal dydd yn parhau yn rhan o ddarpariaeth y Cyngor a phan roedd yn ddiogel i barhau, byddai'n cael ei ddarparu yng nghyfleuster presennol yng Nghroes Atti ac yn y cyfleuster newydd Croes Atti pan gafodd ei ddatblygu mewn dwy flynedd.

Rhoddodd y Cynghorydd Thew sylw ar bwysigrwydd gofal dydd i bobl oedd yn parhau yn eu cartrefi eu hunain. Cytunodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) bod gofal dydd yn bwysig iawn a byddai'n rhoi adborth i'r tîm priodol. Dywedodd bod problemau o ran recriwtio staff i gyflenwi'r holl wasanaethau, a dyna pam bod gofal preswyl yn cael blaenoriaeth.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Ellis ar y galw a'r angen ar gyfer aildechrau gwasanaethau gofal dydd, amlinellodd y Prif Weithredwr (Gwasanaethau Cymdeithasol) y lleoliadau cymunedol amgen a ddefnyddiwyd, megis caffis cofio neu gaffis dementia a oedd wedi lleihau ar y galw. Cytunodd bod rhai yn credu bod gofal dydd yn wasanaeth oedd yn cael ei werthfawrogi'n fawr a'i fwriad oedd darparu'r rhain lle bynnag roedd galw a gweithlu i'w hwyluso. Roedd recriwtio gweithlu yn broblem a gofynnodd am gefnogaeth yr Aelodau i annog etholwyr i ystyried rolau iechyd a gofal cymdeithasol a oedd yn cynnwys gofal dydd, gwasanaethau gofal ychwanegol a gwasanaethau gofal preswyl. Roedd y pwysau o ran staffio yn cyfyngu gallu'r awdurdod i ddarparu'r holl wasanaethau. Roedd yn deall yn llawn y sylwadau a wnaethpwyd ynghylch gofal dydd yn dweud ei fod yn rhan bwysig o'r ddogfen hon.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Hughes ar ddirifoldeb Covid a symud ymlaen, cytunodd y Prif Weithredwr (Gwasanaethau Cymdeithasol) bod Covid wedi cael effaith ar lefelau staffio.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) wrth ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Brown, bod pwysau o ran staffio, ac yn debyg iawn ym mhob adran yn y sir. Nid oedd gofal dydd wedi'i flaenoriaethu oherwydd cyngor iechyd cyhoeddus ond hefyd roedd y galw wedi lleihau. Roedd ymrwymiad i barhau a gofal dydd, ond roedd staffio yn ffactor allweddol. Mae'r gwasanaeth wedi ymateb i alw lleol o fewn ei wasanaethau yn Marleyfield ac yng Nghroes Atti yn y dyfodol.

Eglurodd y Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a lles bod 8 caffï cof ar draws Sir y Fflint yn cefnogi pobl sydd â dementia yn ogystal â phobl hŷn a hoffai ymweld. Maent wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda phreswylwyr yn treulio boreau neu brynhawn yn y caffï, ac wedi lleihau'r angen am ofal dydd. Awgrymodd y byddai eitem ar ofal dydd yn cael ei gynnwys yn y rhaglen waith yn y dyfodol ar gyfer y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Gan gyfeirio at Groes Atti, eglurodd bod y presenoldeb wedi lleihau oherwydd bod pobl yn defnyddio'r lleoliadau eraill hyn. Yn ystod Covid roedd staff wedi gweithio mewn amgylchiadau anodd iawn ac roedd yn anodd i breswylwyr, ond roedd Covid dal yn bodoli, ac roedd angen rheoli'r gwasanaeth yn ofalus.

Cyfeiriodd y Cynghorydd McGuill i'r canolfannau cynnes yn dweud bod yr eiddo yn barod ac yn gynnes, ond roedd diffyg staff i'w cynnal a gofynnwyd a allai'r trydydd sector yn gallu cynorthwyo. Cyfeiriodd at ei chanolfan gymunedol leol a oedd yn darparu lle ar gyfer gwahanol grwpiau i gynnal cyfarfodydd a allai gymryd lle'r canolfannau gofal dydd.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Richard Jones, dywedodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) dywedodd y byddai'n croesawu trafodaeth ar ofal dydd yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac roedd yn rhan bwysig o ddarpariaeth gwasanaeth i symud ymlaen. Nid oedd y gwasanaeth ar gyfer pobl hŷn yn unig ond pobl gydag anableddau ac anghenion eraill hefyd gyda llawer o gefnogaeth werthfawr.

Darparodd y Rheolwr Comisiynu trosolwg o ddarpariaeth comisiynu a sut yr oedd wedi newid ers y Pandemig. Rhoddwyd gwybodaeth ar y Cynllun Comisiynu Gofalwyr, Cynllun Pontio'r Bwlch, Prosiect Taliadau Uniongyrchol a Meicro-Ofal a oedd yn galluogi pobl gael mynediad at gyfleoedd o symud i ffwrdd o wasanaeth gofal dydd traddodiadol.

Ar ôl ei roi i bleidlais, cymeradwywyd yr argymhelliad.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyodd y Cyngor yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yng Ngogledd Cymru 2022.

34. AELOD CYFETHOLEDIG Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro'r adroddiad ac eglurodd bod rhaid i'r Cyngor benodi pobl sydd ddim yn Gynghorwyr i'r Pwyllgor Safonau fel ei fod yn cael ei weld yn fwy annibynnol ac ar wahân i wleidyddiaeth fewnol y Cyngor.

Bydd tymor mewn swydd un o'r aelodau cyfetholedig yn dod i ben ym mis Rhagfyr. Roedd yr aelod yn gymwys i gael ei ail-benodi am dymor pellach.

Yr aelod cyfetholedig oedd y Cadeirydd cyfredol y Pwyllgor ac roedd wedi gweithio'n galed yn y swydd ac wedi gwneud cyfraniad buddiol i lywodraethu'r Cyngor. Roedd yn fodlon gwasanaethu am dymor pellach os oedd yn cael ei hail-benodi.

Ar ôl ei roi i bleidlais, cymeradwywyd yr argymhelliad.

PENDERFYNWYD:

Bod Julia Hughes yn cael ei hailbenodi i'r Pwyllgor Safonau am bum mlynedd.

35. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad ac eglurodd bod y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) wedi dod yn Ddeddf ym mis Ionawr 2021. Roedd hwn yn Ddeddf eang a mawr, a sefydlwyd Gweithgor i sicrhau bod pob agwedd a oedd yn berthnasol i'r Cyngor yn cael ei weithredu.

Cyfeiriodd yr Aelodau at yr Atodiad a oedd yn amlygu sut yr oedd y Cyngor wedi ymateb i rannau allweddol o'r Ddeddf. Gan amlinellu rhai o brif newidiadau cadarnhaodd mai'r newid mwyaf oedd cynnal cyfarfodydd o bell, a oedd wedi bod yn ymateb i'r Pandemig ond ddim yn ôl y gyfraith. Gyda'r Atodiad, cadarnhaodd bod y meysydd isod a ddengys yn wyrdd wedi cael eu gweithredu'n llawn gyda'r meysydd a ddengys yn llwyd ddim yn cael eu cyflawni a bod y 5 maes a ddengys yn oren ar waith.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio.

PENDERFYNWYD:

- (a) I dderbyn yr adroddiad briffio, a bod y Cyngor yn cael sicrwydd;
- (b) Bod y cyfansoddiad a goblygiadau eraill y Ddeddf yn cael eu nodi;
- (c) Bod Swyddog y Gweithgor yn sefyll i lawr tan ac oni bai bod unrhyw bwerau sydd heb eu gweithredu sy'n ofynnol i weithredu; a
- (d) Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a Chyfansoddiadol, wedi'i gefnogi gan y Prif Swyddog (Llywodraethu) yn gweld yr agweddau terfynol y gweithrediad o'r Ddeddf i'w ddiwedd.

36. RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol gan y Grŵp Democrataidd Rhyddfrydol.

"Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod y caledi eithafol y mae preswylwyr yn ddioddef yn ystod yr Argyfwng Costau Byw. Mae nifer cynyddol o breswylwyr, yn arbennig

y rheiny sydd yn defnyddio olew cynhesu domestig (heb eu diogelu gan y cap pris ynni domestig) yn mynd i mewn i gyfnod o tlodi tanwydd ac ni fyddant yn gallu fforddio i wresogi eu cartrefi y gaeaf hwn. Hyd yn oed yn awr, cyn y gaeaf, mae nifer o breswylwyr mewn tlodi tanwydd yn barod.

Mae “Canolfannau Cynnes” yn amgylchedd cynnes a chyfeillgar i gael mwynhau lluniaeth, gweithgaredd cymdeithasol, gwybodaeth a chynghor a seibiant o arwahanrwydd cymdeithasol. Gellir lleoli canolfannau cynnes mewn adeiladau dinesig neu gyhoeddus, sydd yn cael eu cynhesu eisoes ac yn agored i'r cyhoedd megis llyfrgelloedd, mewn adeiladau asedau cymunedol, eglwys a neuadd bentref, a busnesau eraill megis caffis a all fod yn fodlon cofrestru ar gyfer y cynllun.

Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw'r Canolfannau Cynnes yn debygol o gynhyrchu refeniw ac ni ddisgwylir i ymwelwyr brynu te, coffi, na gwario arian i dreulio amser mewn cynhesrwydd. Mae Canolfannau Cynnes yn adnodd cymunedol, yn cydnabod os yw rhywun mewn tlodi tanwydd, yna dylid eu helpu i gadw eu hadnoddau ariannol ac i beidio â themlo pwysau i wario arian er mwyn aros mewn amgylchedd cyhoeddus a chynnes.

Felly mae'r Cyngor hwn yn penderfynu:

1. Cysylltu â sefydliadau partner a darparu Canolfannau Cynnes ar draws Sir y Fflint.
2. Gweithio gydag Aelodau a Chynghorau Tref a Chymuned i adnabod eiddo addas ym mhob ward; a
3. Darparu deunyddiau hysbysebu ar gyfer Aelodau a Chynghorau Tref a Chymuned i godi ymwybyddiaeth o Ganolfannau Cynnes o fewn eu cymunedau.”

Wrth drafod y Rhybudd o Gynnig, dywedodd y Cynghorydd Coggins Cogan ei fod yn ddychrynlyd ein bod yn un o'r gwledydd cyfoethocaf yn y byd, a bod y Cyngor yn gorfod ystyried gwneud “Canolfannau Cynnes”.

Roedd yn teimlo na fyddai'r cymorth gan Lywodraeth y DU yn gwneud gwahaniaeth gan fod cynyddiadau ychwanegol mewn biliau ynni yn cael eu rhagweld. Mynegodd ei anghrediniaeth ar y toriadau treth i rai sydd ar gyflogau uchel, ond bod y rhai diamddiffyn yn gorfod gofalu amdanynt eu hunain. Oherwydd hyn roedd ei grŵp ef yn cynnig sefydlu Canolfannau Cynnes gan ddefnyddio eiddo sydd ar gael yn y sir sydd yn cefnogi sefydliadau'r trydydd sector.

Derbyniodd yr Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden y Rhybudd o Gynnig ar ran y Cabinet. Mewn cyfarfod a gynhaliwyd y diwrnod blaenorol, roedd y Cabinet wedi gweithredu'r mwyafrif oedd wedi'i gynnwys yn y Rhybudd o Gynnig, ac ailadroddodd teimladau'r Cynghorydd Coggins Cogan bod rhaid i'r chweched economi fwyaf yn y byd ddarparu Canolfannau Cynnes i'w ddinasyddion. Hefyd roedd yn dymuno bod yn gysylltiedig â sylwadau a wnaethpwyd ynghylch toriadau treth i rai sy'n ennill cyflogau uchel.

Roedd y Cyngorydd Richard Jones yn teimlo'n hyderus y byddai'r holl Aelodau yn cefnogi egwyddor a bwriad y Rhybudd o Gynnig. Gofynnodd o ran yr eirfa "Canolfannau Cynnes" a gofynnodd a fyddai modd defnyddio enw arall.

Mynegodd y Cyngorydd Ibbotson ei bryder o ran beth oedd preswylwyr yn ei wynebu'r gaeaf hwn. Cadarnhaodd yn ystod y misoedd blaenorol bod llawer iawn o waith wedi'i gyflawni gan y grŵp Democratiaid Rhyddfrydol, y Cabinet, Swyddogion a'i gydweithiwr y Cyngorydd Simon Jones. Dywedodd bod effeithiau chwyddiant uchel, cynnydd mewn biliau ynni, cynnydd mewn prisiau bwyd a chostau tanwydd yn effeithio ar breswylwyr. Cydnabu na ellir darparu'r canolfannau ym mhobman, a bod pwysau economaidd ar gyllidebau'r Cyngor, ond gofynnodd bod pawb yn sicrhau bod gan bob unigolyn yn y sir fynediad at gymorth y maent eu hangen y gaeaf hwn.

Dywedodd y Cyngorydd Ellis ei bod wedi ysgrifennu at yr Arweinwyr Grŵp a'r Uwch Swyddogion ym mis Medi yn gofyn pa gymorth oedd yn cael ei ddarparu i breswylwyr fwyaf diamddiffyn yn Sir y Fflint. Cytunodd gyda'r sylwadau a wnaethpwyd ar enw arall, ac i ddefnyddio llyfrgelloedd neu ganolfannau cymunedol gan eu bod ar gael yn y mwyafrif o drefi ac ar agor i holl breswylwyr. Gofynnodd a ellir darparu gwybodaeth ysgrifenedig i gynorthwyo ag ymateb i gwestiynau gan breswylwyr.

Roedd yr Is-Gadeirydd y Cyngor yn cefnogi'r Rhybudd o Gynnig yn llawn, a diolchodd i'r Cyngorydd Ibbotson am ei sylwadau ac roedd yn cytuno gyda'r awgrym o ailenwi'r canolfannau.

Roedd y Cyngorydd Peers yn cefnogi'r Rhybudd o Gynnig mewn egwyddor, ond hefyd roedd ganddo bryder ynghylch yr enw a sut y gellir ei ddarparu a'i hysbysebu.

Roedd y Cyngorydd Owen hefyd yn cefnogi'r Rhybudd o Gynnig, ond gofynnodd sut y byddai staffio'r canolfannau hyn a byddai costau'r lluniaeth yn cael ei ddarparu gan y Cyngor.

Cytunodd y Cyngorydd Chris Dolphin gyda'r sylwadau ac nid oedd ganddo broblem gyda'r enw. Roedd digartrefedd bob amser yn broblem ac yn anffodus yn debygol o waethygu. Gofynnodd pwy a fyddai'n gweinyddu'r canolfannau a theimlai na fyddai'n hyfyw i gael un ym mhob cymuned, gan fyddai disgwyl i eglwysi a neuaddau bentref roi eu gwres ymlaen a fyddai'n broblem fawr. Gofynnodd a fyddai'r Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) yn gallu darparu ymateb.

Cadarnhaodd y Cyngorydd Simon Jones ei fod wedi bod yn gweithio gyda gwahanol grwpiau ar draws y sir a dywedodd bod yr enw "Canolfannau Cynnes" yn enw safonol yn y DU am y math hwn o wasanaeth. Ni ddylai'r ffocws fod ar yr enw ond darparu'r gwasanaeth mor gyflym â phosib gyda'r gaeaf yn nesâu.

Talodd y Cyngorydd Bibby deyrnged i'r gwaith a gyflawnwyd, a diolchodd i'r Uwch Reolwr (Budd-daliadau) am ei gwaith a chytunodd gyda'r sylwadau a wnaethpwyd heddiw.

Eglurodd y Prif Weithredwr bod hwn yn cael ei gydlynu drwy'r Uwch Reolwr (Budd-daliadau) a'i thîm. Roedd gan y grwpiau cymunedol y trydydd sector rôl sylweddol i chwarae gyda'r Cyngor i sicrhau ei lwyddiant. Diolchodd yr Aelodau am eu cefnogaeth ar y Rhybudd o Gynnig a rhoddodd sicrwydd bod gwaith yn cael ei wneud eisoes gan yr Uwch Reolwr (Budd-daliadau) a'r tîm a fydd yn parhau.

Rhoddodd y Cynghorydd Wakelam wybodaeth am y ffordd yr oedd grwpiau gwirfoddoli yn cael eu cynnal ym Mhenyffordd a dywedodd ei fod yn bwysig i ymgysylltu â phob grŵp yn y gymuned.

Hefyd cefnogodd y Cynghorydd Crease y Rhybudd o Gynnig a oedd yn rhywbeth ystyriol ar gyfer y sir gyfan yn Sir y Fflint.

Mynegodd y Cynghorydd Coggins Cogan ei ddiolch i'r Aelodau am eu sylwadau cefnogol. Roedd yn deall pam bod yr enw yn achosi pryder a dywedodd yn ei ward ef y byddai'n cael ei alw'n "Caffi Cymunedol Gwernaffield". Ailadroddodd y pwysigrwydd o weithio gyda'r trydydd sector i ddarparu cymorth yr oedd ei angen.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan y Cynghorydd Ian Roberts ac ar ôl y bleidlais roedd yn unfrydol.

PENDERFYNWYD:

Bod y Rhybudd o Gynnig yn cael ei dderbyn a'i gefnogi.

37. CWESTIYNAU

Dywedodd y Cadeirydd bod tri chwestiwn wedi dod i law ac wedi eu hymateb. Roedd y rhain wedi'u dosbarthu i'r Aelodau.

PENDERFYNWYD:

Bod y cwestiynau a'r ymatebion ysgrifenedig yn cael eu derbyn a'u nodi.

38. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU YNGLŶN Â CHOFNODION Y PWYLLGOR

Derbyniwyd dim.

39. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 4.22pm)

.....
Y Cadeirydd